Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) - Ystyriaeth Cyfnod 1

| | |
|---|---|
| At: | Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Gan: | Y Swyddfa Ddeddfwriaeth |
| Dyddiad y cyfarfod: | 30 Ionawr 2013 |

## Diben

1. Amlinellu rôl y Pwyllgor yng Nghyfnod 1.

2. Gwahodd y Pwyllgor i ystyried ei gylch gorchwyl, a chytuno arno, a'i ddull o graffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ('y Bil') yng Nghyfnod 1.

## Cefndir

3. Ar 22 Ionawr, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ('y Pwyllgor), gan nodi bod angen cyflwyno adroddiad arno erbyn 21 Mehefin 2013.

4. Ar 28 Ionawr, bydd Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn cyflwyno'r Bil a Memorandwm Esboniadol. Bydd hefyd yn gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Ionawr.

5. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi paratoi papur yn rhoi cefndir y Bil ac mae'r ddogfen hon ar gael ar wahân.

## Rôl y Pwyllgor

6. Rôl y Pwyllgor yng Nghyfnod 1 yw 'ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt' (Rheol Sefydlog 26.10)

7. Nid oes gofynion penodol yn y Rheolau Sefydlog sy'n rheoli'r modd y bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â'r gwaith craffu hwn. Ar y sail honno, mae cylch

gorchwyl drafft wedi'i amlinellu ym mharagraff 9 y papur hwn ac, ym mharagraffau 10-15, awgrymir sut y gellir ymgymryd â'r gwaith craffu.

8. Ar ôl i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad, bydd dadl Cyfnod 1 yn cael ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn. Ar ddiwedd y ddadl hon, gofynnir i'r Cynulliad gytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Os caiff yr egwyddorion cyffredinol hyn eu derbyn, bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2, pan fydd y Pwyllgor yn trafod ac yn gwaredu gwelliannau'r Pwyllgor (ar hyn o bryd, bwriedir cynnal Cyfnod 2 ym mis Medi/Hydref 2013).

## Y cylch gorchwyl drafft

9. Wrth graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1, awgrymir bod y Pwyllgor yn cytuno ar y cylch gorchwyl a ganlyn:

Ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen i ddeddfu er mwyn darparu ar gyfer:

- Deddfwriaeth Gymraeg sydd wedi'i chydgrynhoi ac sy'n symleiddio ac yn egluro dyletswyddau, gan gynorthwyo'r broses o ddarparu gwasanethau cymdeithasol a lleihau'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i ddeall y fframwaith cyfreithiol presennol;
- Deddfwriaeth newydd a fyddai'n ailadrodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wasanaethau cymdeithasol integredig ar gyfer oedolion, plant a'u gofalwyr gyda Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol amdanynt.
- Hyrwyddo partneriaeth a gweithio agosach a mwy integredig rhwng awdurdodau lleol, a rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill, gan gynnwys darparwyr y GIG;
- Cryfhau'r cyfarwyddyd cenedlaethol a chynyddu cysondeb mynediad at wasanaethau cymdeithasol ledled Cymru tra'n cynnal atebolrwydd lleol am weithredu;
- Datblygu gwell rôl o ran lles ac atal ar gyfer awdurdodau lleol a'u partneriaid er mwyn helpu i osgoi neu ohirio'r angen am ofal a chymorth;

- Hyrwyddo'r broses o ymrymuso defnyddwyr gwasanaethau gan roi llais cryfach iddynt a rhagor o reolaeth dros wasanaethau;
- Cryfhau'r broses o ddiogelu ac amddiffyn oedolion a phlant.

## Dull y Pwyllgor o graffu yng Nghyfnod 1

10. Yn unol â'r terfyn amser a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes, bydd angen i'r Pwyllgor gwblhau ei waith craffu ar y Bil a chyflwyno adroddiad arno erbyn 21 Mehefin fan bellaf.

11. Mae'r dyddiad cau yn caniatáu 16 wythnos fusnes ar gyfer ymgymryd â'r gwaith hwn, er y bydd yn rhaid ei gyflawni ar yr un pryd â gwaith arall y Pwyllgor o ran polisi a deddfwriaeth. O ystyried pwysau gwaith y Pwyllgor, ar hyn o bryd mae pump sesiwn dystiolaeth wedi'u trefnu gyda thystion allanol a dwy sesiwn gyda'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol.

12. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno eisoes ar y dull cyffredinol a ganlyn o graffu ar ddeddfwriaeth yng Nghyfnod 1:—

- **Cais cyffredinol am dystiolaeth**
  Cyhoeddi cais cyffredinol am dystiolaeth, rhoi gwybod i'r wasg yng Nghymru amdani a'i chyhoeddi ar wefan y Cynulliad.

- **Cais am dystiolaeth ysgrifenedig**
  Gwahodd sefydliadau ac unigolion dethol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Ceir rhestr o ymgyngoreion posibl yn **Atodiad 1.**

- **Tystiolaeth lafar**
  Gwahodd y prif randdeiliaid i roi tystiolaeth lafar mewn cyfarfodydd yn y dyfodol (a chynnal yr ymgynghoriad yr un pryd). Dull posibl o reoli'r sesiynau tystiolaeth lafar yw trefnu'r pump sesiwn sydd wedi'u trefnu yn ôl themâu i adlewyrchu prif ddarpariaethau'r Bil. Ceir amserlen bosibl yn Atodiad 2.

- **Ymgysylltu ac Allgymorth**
  Ceir amlinelliad arfaethedig o'r gwaith ymgysylltu ac allgymorth i gefnogi'r Pwyllgor wrth iddo ymgymryd â'i waith yn Atodiad 3. O gofio'r dyddiadau cau sydd wedi'u pennu, mae rhai opsiynau'n fwy ymarferol nag eraill.

13. Mae'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yn caniatáu cyfnod ymgynghori o 6 wythnos, rhwng 1 Chwefror a 15 Mawrth. Bydd hyn yn golygu bod modd ystyried tystiolaeth ysgrifenedig a'i defnyddio i gynorthwyo'r sesiynau tystiolaeth lafar.

14. Bydd y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a gesglir yn helpu i lywio gwaith y Pwyllgor o drafod y Bil a'i adroddiad dilynol.

15. Er gwybodaeth, mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyflwyno adroddiad ar yr agweddau perthnasol ar y Bil.

## Cam i'w gymryd

16. Gwahoddir y Pwyllgor i:

- gytuno ar y cylch gorchwyl drafft (fel y'i hamlinellir ym mharagraff 9);

- cytuno ar ei ddull o graffu yng Nghyfnod 1 (fel y'i hamlinellir ym mharagraffau 10 – 15);

- cytuno ar ymgynghoriad chwe wythnos a'r rhestr o ymgyngoreion (Atodiad 1);

- cytuno ar y dull o graffu ar y Bil yn ôl themâu (Atodiad 2); a

- nodi'r gwaith ymgysylltu ac allgymorth arfaethedig i gynorthwyo'r Pwyllgor a gwneud sylwadau ar y gwaith hwnnw (Atodiad 3).

Atodiad 1

**Unigolion/sefydliadau posibl y gellir cysylltu â hwy i ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig:**

*Wedi ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

| **Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru** |
|---|
| Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan |
| Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda |
| Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf |
| Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys |
| Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Felindre |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Cynghorau Iechyd Cymuned** |
| Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru * |
| Abertawe Bro Morgannwg |
| Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (Gwent, Caerffili, Tor-faen, Casnewydd, |

| |
|---|
| Mynwy) |
| Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr (Conwy, Gwynedd, Ynys Môn) |
| Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed |
| Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a’r Fro |
| Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf |
| Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda |
| Cyngor Iechyd Cymuned Trefaldwyn |
| **Llywodraeth Leol - Prif Weithredwyr Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Cyngor Sir Caerdydd |
| Cyngor Sir Gâr |
| Cyngor Sir Ceredigion |
| Dinas a Sir Abertawe |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyngor Sir Ddinbych |

| |
|---|
| Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngor Gwynedd |
| Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Cyngor Sir Fynwy |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Cyngor Dinas Casnewydd |
| Cyngor Sir Penfro |
| Cyngor Sir Powys |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen |
| Cyngor Bro Morgannwg |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru * |
| **Byrddau Diogelu Plant** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |

| |
|---|
| Cyngor Caerdydd |
| Cyngor Sir Gâr |
| Cyngor Sir Ceredigion |
| Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngor Gwynedd |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Cyngor Dinas Casnewydd |
| Cyngor Sir Penfro |
| Cyngor Sir Powys |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Dinas a Sir Abertawe |
| Cyngor Bro Morgannwg |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| **Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |

| |
|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Cyngor Caerdydd |
| Cyngor Sir Gâr |
| Cyngor Sir Ceredigion |
| Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngor Gwynedd |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Cyngor Sir Fynwy |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Cyngor Dinas Casnewydd |
| Cyngor Sir Penfro |
| Cyngor Sir Powys |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Dinas a Sir Abertawe |
| Cyngor Bro Morgannwg |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| **Asiantaethau Swyddogol** |

| |
|---|
| CAFCASS Cymru |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru * |
| Comisiynydd Plant Cymru * |
| Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru * |
| Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd |
| Sefydliad Iechyd Gwledig |
| Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru |
| Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol |
| Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth * |
| Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Cyrff Proffesiynnol** |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |

| |
|---|
| Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru |
| Cymdeithas Cenedlaethol Swyddogion Prawf |
| Coleg Brenhinol y Ffisigwyr |
| Conffederasiwn GIG Cymru |
| **Y Sector Gwirfoddol** |
| Action on Hearing Loss Cymru |
| Gweithredu dros Blant |
| Adoption UK * |
| Age Cymru - Prosiect Fy Mywyd Mewn Cartref |
| Ymddiriedolaeth AIDS Cymru |
| All Care |
| Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan |
| Pobl yn Gyntaf Cymru |
| Cofrestr Mabwysiadu y DU |
| Anheddau Cyf |
| Gofal Arthritis yng Nghymru |
| Cymdeithas dros Newid Go Iawn Cymru |
| Cymdeithas Spina Bifida a Hydroceffalws yng Nghymru |

| |
|---|
| Ategi Cyf |
| Awtistiaeth Cymru |
| Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru |
| Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru |
| Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yng Nghymru |
| Sefydliad Prydeinig y Galon yng Nghymru |
| Cymdeithas Prydeinig Anableddau Dysgu |
| Y Groes Goch Brydeinig |
| Ymddiriedolaeth y Gofalwyr yng Nghymru |
| Hawliau Anabledd y DU |
| Gwasanaethau Nyrsio a Gofal Cartref Cerecare |
| Chwarae Teg |
| Cynghrair Pensiynwyr y Gwasanaeth Sifil |
| CLIC Sargent |
| Cymdeithas Ymarferwyr Cymunedol ac Ymwelwyr Iechyd |
| Cymdeithas Cludiant Cymunedol |
| Llais Defnyddwyr Cymru |
| Contact the Elderly |

| |
|---|
| Croesffyrdd - Gofalu am Ofalwyr |
| Gofal Galar Cruse Cymru |
| Cymorth Cymru |
| Yr Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig |
| Daybreak (Wales) Ltd. (nid oes cyfeiriad e-bost/rhif ffôn ar gael) |
| Dementia UK |
| Cynghrair Iselder |
| Plant Anabl yn Cyfri |
| Diabetes Cymru |
| Epilepsi Cymru |
| Gingerbread |
| GISDA, John Edwards, Rheolwr Swyddfa |
| Cymdeithas y Teidiau a Neiniau |
| Independent Age |
| Cymorth Canser Macmillan |
| Merched y Wawr |
| Undeb y Mamau yng Nghymru |
| Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig yng Nghymru |
| Cymdeithas Iselder Manig - Sefydliad Deubegynol Cymru |

| |
|---|
| Mudiad Ysgolion Meithrin |
| NACRO Cymru |
| Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant |
| Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yng Nghymru |
| Ffederasiwn Cenedlaethol Pensiynwyr y Post Brenhinol a BT |
| Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched |
| Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru |
| Y Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol |
| New Family Social |
| NIACE Cymru |
| Cynghrair Eiriolaeth Pobl Hŷn |
| Un Llais Cymru |
| PACT |
| Y Ffederasiwn Rhieni |
| Parkinson's UK Cymru * |
| Cymdeithas y Cleifion |
| Fforwm Pensiynwyr Cymru |
| Sense Cymru |

| |
|---|
| RNIB Cymru |
| Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw Cymru |
| Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| Achub y Plant |
| SNAP Cymru |
| Stonewall Cymru |
| Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain * |
| Ymddiriedolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru |
| The Disability Can Do Organisation |
| Vision 21 (Cyfle Cymru) |
| Cynghrair Cynhalwyr Cymru |
| Gwasnaeth Asesu Gyrru a Symudedd Cymru |
| Cynghrair Niwrolegol Cymru |
| Senedd Pobl Hŷn Cymru |
| Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Cymru |
| Cyngor Cymru i'r Deillion |
| Cyngor Cymru i Bobl Fyddar |
| Cynghrair Ailalluogi Cymru |
| Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched |

| Darparwyr tai, y sector annibynnol a chyrff cynrychiadol |
|---|
| Cymdeithas Rheolwyr Tai Ymddeol |
| Centre for Housing and Support |
| Cymdeithas Plant Dewi Sant * |
| EroSH (Essential Role of Sheltered Housing) |
| Y Gydmeithas Gofal Cenedlaethol |
| Cymdeithas Gofal Gogledd Cymru |
| Cymdeithas Cartrefi Nyrsio Cofrestredig |
| Cymdeithas Gofal Cartref y DU |
| Cartrefi Melin |
| Cartrefi Abbeyfield |
| Tai Cymoedd i'r Arfordir |
| Seren Group |
| Pennaf Housing Group |
| Sefydliad Tai Siartredig Cymru |
| Family Housing Association Cymru |
| **Academia** |
| Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Bangor |

| |
|---|
| Canolfan Heneiddio Arloesol, Prifysgol Abertawe |
| Canolfan Ymchwil Gwaith a Gofal Cymdeithasol |
| Sefydliad Ymchwil Meddygaeth a Gofal Cymdeithasol - Canolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia Cymru |
| Prifysgol Caerdydd |
| Rhwydwaith Ymchwil a Datblygu Pobl Hŷn a Heneiddio |
| Ysgol y Gyfraith Bangor |
| Ysgol y Gyfraith Aberystwyth |
| Ysgol y Gyfraith Abertawe |
| Ysgol y Gyfraith Morgannwg |
| Ysgol y Gyfraith Caerdydd |
| Grŵp Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Partneriaethau Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol** |
| De-ddwyrain Cymru |
| De-orllewin Cymru |
| Gogledd Cymru |
| Canolbarth Cymru |
| **Undebau Llafur** |
| UNSAIN |
| Uno'r Undeb |

| |
|---|
| Cyngres yr Undebau Llafur Cymru |
| **Prif Gwnstabliaid yr Heddlu** |
| Dyfed Powys |
| Gwent |
| Gogledd Cymru |
| De Cymru |
| **Prif Swyddogion Tân Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru** |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru, Richard Smith, Prif Swyddog Tân |
| Gogledd Cymru, Simon A Smith, Cynorthwyydd Personol y Prif Swyddog Tân |
| De Cymru, Huw Jakeway, Prif Swyddog Tân |
| **Arall** |
| Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd |
| Fferylliaeth Gymunedol Cymru |

**Y rhai sydd wedi ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru**

Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd
Materion eiriolaeth
Ar ôl mabwysiadu
Cynghrair Henoed Cymru
Age Connects – Age Cymru
Cymdeithas Alzheimer's
Barnardo's
Black Association of Women Step Out (BAWSO)

British Geriatric Society Wales
Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint
Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru
BUPA
Gofal a Thrwsio
Rhwydwaith Cydgysylltu Gofal Cymru
Care for the Family
Fforwm Gofal Cymru
Cynhalwyr Cymru
Cartrefi Cymru
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
Plant yng Nghymru
Care for the Family
Cyngor ar Bopeth Cymru
Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
Cartrefi Cymunedol Cymru
Consortiwm Bywydau Cymunedol
Cyswllt Teulu
Consortiwm Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol
Dignified Revolution
Anabledd Cymru
Diverse Cymru
Cymdeithas Gofal Cartref Cymru
Cymdeithas Syndrom Down
FNF Both Parents Matter Cymru
Rhwydwaith Maethu Cymru
GOFAL
GRWP Gwalia
Hafal
Hafod Care
Haven Trust
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Sefydliad Joseph Rowntree
Cymdeithas y Cyfreithwyr
Anabledd Dysgu Cymru
Leonard Cheshire Disability

Linc Care
Lles Cymru
Mencap Cymru
Darparwyr Eiriolaeth Iechyd Meddwl
Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor
Multiple Sclerosis Society Cymru
Yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol
Gwasaneth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru
Nationwide Association of Fostering Providers
Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru
Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
Christine Rees, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Perthyn
Post Adoption Centre
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru
Coleg Brenhinol y Nyrsys
Grŵp Gofal Gydag Urddas Coleg Brenhinol y Nyrsys (Cymru)
Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru
Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
Scope
Y Gymdeithas Strôc
Tai Pawb
Tros Gynnal Plant
Tunstall Healthcare
Cymdeithas Tai Unedig Cymru
Voices from Care
Swyddfa Archwilio Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Grŵp Cynghorol Arweinwyr Ffisiotherapi Cymru
Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Atodiad 2

**Themâu posibl i drefnu'r gwaith o graffu ar y Bil**

1. **Egwyddorion cyffredin y Bil**
   - Yr angen am statud Cymraeg
   - Gwasanaethau integredig i oedolion a phlant a rhagor o gysondeb o ran mynediad
   - Pwyslais ar les a dulliau ataliol
   - Cyfarwyddyd cenedlaethol cryf ac atebolrwydd lleol am weithredu.
   - Hyrwyddo'r broses o ymrymuso defnyddwyr gwasanaethau
   - Hyrwyddo partneriaeth a gweithio integredig ar draws gwasanaethau

2. **Mynediad gan oedolion, plant a gofalwyr at wasanaethau**:
   - Dyletswyddau llesiant, gwasanaethau ataliol, gwybodaeth a chyngor
   - Asesu oedolion, plant a gofalwyr
   - Diwallu anghenion oedolion, plant a gofalwyr, gan gynnwys Taliadau Uniongyrchol
   - Codi tâl ac asesiad ariannol

3. **Gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal/plant sy'n cael eu lletya/plant sydd wedi'u mabwysiadu**:
   - Plant sy'n derbyn gofal, adolygiad o achosion, gadael gofal
   - Plant sy'n cael eu lletya, llety diogel
   - Mabwysiadu

4. **Diogelu oedolion a phlant**
   - Trefniadau amddiffyn oedolion
   - Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
   - Byrddau Diogelu ac Amddiffyn

5. **Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol**:

- Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, Cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol
- Fframwaith canlyniadau cenedlaethol a chodau
- Cydweithredu, integreiddio a phartneriaeth
- Cwynion a chyflwyniadau
- Arall – gan gynnwys preswyliaeth gyffredin, adennill costau ac ati, ymyrraeth gan Lywodraeth y DU

Atodiad 3

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

## Gwaith craffu Cyfnod 1 – Cynnig Cyfathrebu

### Cyflwyniad

Bydd Pwyllgorau fel arfer yn ymgymryd â gwaith ymgynghori ac ymgysylltu fel rhan o'u gwaith craffu ar Filiau yn ystod Cyfnod 1. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys galwad cyffredinol am dystiolaeth, gwahodd cyflwyniadau ysgrifenedig, clywed tystiolaeth lafar mewn pwyllgor a gweithio gyda Thîm Allgymorth y Cynulliad i ymgysylltu â chyfran o'r cyhoedd i gael amcan o farn pobl ar y Bil.

O gofio maint y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a pha mor gymhleth ydyw awgrymir y byddai'r Pwyllgor o bosibl yn dymuno defnyddio ystod ehangach o ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu i'w gynorthwyo gyda'i waith craffu Cyfnod 1.

Mae'r papur hwn yn amlinellu'r dulliau ymgysylltu y gellir eu defnyddio gan Dîm Allgymorth y Cynulliad ac mae'n cynnwys nifer o awgrymiadau ar gyfer ymgynghori â chynulleidfaoedd targed yn seiliedig ar ymgynghoriad cychwynnol â sampl o unigolion a sefydliadau perthnasol.

Unwaith y bydd y Pwyllgor wedi ystyried yr opsiynau hyn ac wedi cytuno ar unrhyw ddulliau ymgysylltu y mae'n dymuno eu defnyddio, bydd y Tîm Allgymorth yn gweithio gyda'r Clercod Deddfwriaeth a'r Gwasanaeth Ymchwil i ddatblygu strwythur ar gyfer cymorth a gweithredu.

### Dulliau Posibl o Ymgysylltu

#### *Digwyddiadau*

Mae digwyddiadau ac ymweliadau yn gyfle i'r Pwyllgor:

- Hybu'r ymchwiliad;
- Rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad siarad ag unigolion a grwpiau sydd â diddordeb yn y mater dan sylw;

Bydd nifer o grwpiau yn cynnal digwyddiadau yn y Senedd yn ystod y broses o graffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1, ac efallai y bydd Aelodau'n dymuno cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn. Maent yn cynnwys:

**Mis Chwefror**

- Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle (4/2/13)
- WGC Homelessness (7/2/13)
- Diverse Cymru (8/2/13)
- Achub y Plant (19/2/13)
- Darlith Prifysgol Morgannwg ar Faterion Cyhoeddus (19/2/13)
- Diwrnod Clefydau Anghyffredin (20/2/13)
- Apêl Cennin Pedr Marie Curie (26/2/13)

**Mis Mawrth**

- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (8/3/13)
- Ymchwilio i gamdriniaeth (6/3/13)
- Diwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd (20/3/13)
- Cymorth Cymru (21/3/13)

*Grŵp Cynghori*

Rydym yn ymwybodol bod nifer o sefydliadau allanol wedi dangos diddordeb mewn ymgysylltu'n uniongyrchol âg aelodau'r Pwyllgor, gyda'r bwriad o ddylanwadu ar waith y Pwyllgor o graffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1 a'i gynghori wrth iddo wneud y gwaith hwn.

Ar sail hyn, drwy drafodaethau â chadeirydd y Pwyllgor a thrwy gefnogaeth rhai o aelodau eraill y Pwyllgor, awgrymwyd y dylai'r sefydliadau hyn sefydlu grŵp cynghori i osgoi dyblygu gwaith ymgysylltu wrth ddatblygu gwaith mewn partneriaeth hefyd. Bydd y grŵp yn cael budd o ddod â sefydliadau ynghyd y byddent fel arfer yn ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad yn unigol. Bydd y Grŵp Cynghori hefyd yn gallu cydgysylltu cyngor penodol o feysydd amrywiol o arbenigedd yr aelodau, sy'n cynnwys ystod o elusennau gweithredol ym maes gofal cymdeithasol.

Bydd y Grŵp Cynghori yn rhoi cyngor i aelodau'r Pwyllgor ar faterion allweddol sy'n codi o'r ddeddfwriaeth arfaethedig, gan gynnwys nodi cwestiynau a materion y gall tystion unigol ymdrin â hwy gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod Cyfnod 1. Bydd y Grŵp Cynghori hefyd yn helpu i nodi rhai o oblygiadau cyfreithiol y newidiadau mewn deddfwriaeth a sut y mae'r rhain yn rhyngweithio â'r newidiadau yn Lloegr a'r dyletswyddau presennol ar asiantaethau statudol yng Nghymru.

*Ymweliadau â grwpiau anodd eu cyrraedd a chynnwys y grwpiau hyn*

At ddibenion y Bil hwn, mae'n bosibl y bydd aelodau unigol o'r Pwyllgor yn dymuno ymweld â sefydliadau a/neu unigolion perthnasol o fewn eu hetholaethau. Byddai ymweliadau o'r fath yn anffurfiol, heb unrhyw gofnod o'r trafodion, a gellir eu defnyddio er mwyn casglu tystiolaeth gan y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y Bil. Er enghraifft, defnyddwyr gwasanaeth y gallai'r gwasanaeth a ddarperir iddynt newid o ganlyniad i'r Bil.

Mae casglu tystiolaeth gan grwpiau anodd eu cyrraedd bob amser yn heriol, ond mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn teimlo bod casglu tystiolaeth gan y grwpiau hyn yn flaenoriaeth oherwydd natur y Bil hwn. Efallai mai mynd ar ymweliadau fydd y ffordd orau o gynnwys grwpiau o'r fath, oherwydd y mae cyfarfod â hwy o fewn amgylchiadau cyfarwydd yn fwy cynhyrchiol na defnyddio dulliau ffurfiol o gasglu tystiolaeth, sy'n gallu codi ofn.

Byddai angen i waith ymgysylltu o'r fath ddigwydd wyneb yn wyneb fel arfer, a byddai angen ystyried yn ofalus unrhyw dystiolaeth sy'n cael ei chasglu o ran sut y dylid ei rhannu â'r Pwyllgor ehangach neu ei defnyddio i gynorthwyo'r broses graffu.

Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau yn y mannau y maent yn darparu'r gwasanaethau hynny.

*Cynghorwyr arbenigol*

Yn ystod y cyfarfod ar 5 Rhagfyr 2012, cytunodd y Pwyllgor mewn egwyddor y byddai cymorth gan y maes perthnasol yn ddefnyddiol a'i bod yn werth ymchwilio i'r opsiwn hwn. Cytunodd y Pwyllgor y byddai o bosibl yn fuddiol ystyried ceisio

cyngor nifer o ymgynghorwyr, ac y gallai pob un gynorthwyo â'r gwaith o ystyried materion penodol, yn hytrach na phenodi un cynghorwr arbenigol.

*Cofnodwyr/rapporteuriaid*

Mae aelodau'n gyfarwydd â defnyddio grwpiau rapporteur ac mae'n bosibl y byddant am ystyried y dull hwn gyda'r Bil. Yn yr un modd, bydd aelodau o bosibl yn dymuno defnyddio cofnodwyr, lle bydd y Pwyllgor yn gofyn i un aelod adrodd yn ôl ar bwnc penodol. Gall defnyddio cofnodwyr o bosibl fod yn fwy 'addas' ar gyfer casglu gwybodaeth fel rhan o'r gwaith o graffu ar y Bil hwn oherwydd sensitifrwydd rhai o'r materion a fydd, o bosibl, yn codi. Er enghraifft, casglodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wybodaeth gan ddarpar rieni a rhieni sy'n mabwysiadu yn yr un modd fel rhan o'r ymchwiliad i fabwysiadu. Cynhyrchodd dull o'r fath wybodaeth na fyddai wedi'i chasglu fel arall drwy'r dulliau mwy ffurfiol neu draddodiadol o ymgysylltu.

*Digwyddiad gwibrwydweithio*

Mae aelodau'r Pwyllgor wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau gwibrwydweithio yn y gorffennol ac wedi'u cael yn ddefnyddiol. Mae'r math hwn o ddigwyddiad yn rhoi llwyfan i Aelodau'r Cynulliad gyfarfod â chynrychiolwyr perthnasol o'r gwasanaethau, a defnyddwyr y gwasanaethau hyn, i ddysgu rhagor am y maes a phwy yw'r prif randdeiliaid. Yn ail, maent yn rhoi llwyfan i'r grwpiau ac unigolion perthnasol gyfarfod ag Aelodau'r Cynulliad i drafod materion, blaenoriaethau ac ymgyrchoedd. Fel rhan o'r broses o gyflwyno'r Grŵp Cynghori i'r Pwyllgor, deallwn ei fod yn cynnig cynnal digwyddiad gwibrwydweithio.